**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF**

**ADRODDIAD GWRTHWYNEBU**

**CYNNIG I GAU YSGOL GYNRADD Y RHIGOS A THROSGLWYDDO DISGYBLION I YSGOL GYNRADD HIRWAUN**

## 1. Diben yr Adroddiad Gwrthwynebu

Mae'r Adroddiad Gwrthwynebu yma wedi'i baratoi yn unol â chanllaw deddfwriaethol Llywodraeth Cymru (LlC) y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2il Argraffiad) (011/2018). Ei ddiben yw:

- Llywio canlyniad cyhoeddi'r hysbysiad statudol a gafodd ei chyhoeddi ar gyfer y cynnig yma ar 26 Ionawr 2024 am o leiaf 28 diwrnod.
- Cynnwys crynodeb o'r gwrthwynebiadau statudol a dderbyniwyd ac ymateb Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (CBSRhCT) iddyn nhw.

## 2. Yr Hysbysiad Statudol

Mae'r Hysbysiad Statudol i ddatblygu'r cynnig yma, a gafodd ei gyhoeddi ar 26 Ionawr 2024, i'w gweld isod:

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF**

Ysgolion yr 21ain Ganrif, Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Canolfan Menter y Cymoedd, Parc Hen Lofa'r Navigation, Abercynon CF45 4SN

Dyma hysbysiad yn unol ag Adran 43 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion, fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, ac yntau wedi ymgynghori â'r bobl hynny yr oedd yn ofynnol iddo ymgynghori â nhw, yn cynnig:

1. Cau'r ysgol ganlynol sy'n cael ei chynnal gan Gyngor Rhondda Cynon Taf ar hyn o bryd:

    a. Ysgol Gynradd y Rhigos, Heol y Graig, Aberdâr, CF44 9YY.

Cynhaliodd Cyngor Rhondda Cynon Taf gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae adroddiad ar yr ymgynghoriad sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd yn yr ymgynghoriad, ymatebion y cynigwyr a barn Estyn ar gael yma:
https://www.rctcbc.gov.uk/CY/GetInvolved/Consultations/CurrentConsultations/ConsultationonaproposaltocloseRhigosPrimary.aspx

Cynigir cau Ysgol Gynradd y Rhigos ac ehangu dalgylch Ysgol Gynradd Hirwaun, Stryd Glannant, Hirwaun, Aberdâr, CF44 9NF, i gynnwys dalgylch presennol Ysgol

Gynradd y Rhigos. Bydd disgyblion Ysgol Gynradd y Rhigos yn mynychu Ysgol Gynradd Hirwaun yn lle. Cynigir y bydd Ysgol Gynradd y Rhigos yn cau ac y bydd disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Gynradd Hirwaun erbyn mis Medi 2024 fan bellaf, yn amodol ar ddewis rhieni/gwarcheidwaid.


Mae Ysgol Gynradd Hirwaun yn ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Saesneg, i blant 3 i 11 oed. Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf fydd yr awdurdod derbyn, a fydd dim trefniadau ar gyfer bandio disgyblion.

Capasiti Ysgol Gynradd Hirwaun yw 394, yn ogystal â lleoedd Meithrin. Y nifer derbyn ar gyfer disgyblion 4 oed i Ddosbarth Derbyn yr ysgol yw 56. Mae 60 o leoedd meithrin.

Bydd cludiant ar gael i'r disgyblion yn unol â Pholisi Cludiant Cyngor Rhondda Cynon Taf. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn darparu cludiant am ddim i ddisgyblion sy'n mynychu eu hysgol addas agosaf, neu os nad oes llwybr cerdded diogel, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Mae'r term 'ysgol addas' yn cyfeirio at y dalgylch neu'r ysgol cyfrwng Cymraeg, cyfrwng Saesneg, ysgol ddwy iaith, ysgol brif ffrwd wirfoddol gymorthedig (yr Eglwysi) neu ysgol/dosbarth arbennig agosaf, fel y bo'n briodol.

Caiff pwy bynnag a fynno gyflwyno gwrthwynebiad i'r cynigion yma cyn pen 28 o ddiwrnodau o ddyddiad cyhoeddi'r cynnig yma, sef erbyn 17:00, 23 Chwefror 2024. Dylid anfon gwrthwynebiadau at: Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, Ysgolion yr 21$^{ain}$ Ganrif, Canolfan Menter y Cymoedd, Parc Hen Lofa'r Navigation, Abercynon, CF45 4SN neu e-bostio: CynllunioYsgolion@rctcbc.gov.uk.

Bydd Cyngor Rhondda Cynon Taf yn cyhoeddi crynodeb o unrhyw wrthwynebiadau a ddaw i law (ac sydd heb eu tynnu'n ôl yn ysgrifenedig) yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, ynghyd â'i sylwadau arnyn nhw, cyn pen cyfnod o 7 niwrnod o benderfynu ar y cynnig.

| **Llofnod:** |  |
|---|---|
| Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant<br>ar ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | |
| **Dyddiad:** | 26 Ionawr 2024 |

## 3. Manylion y Gwrthwynebiadau a Ddaeth i Law

Cyhoeddwyd yr Hysbysiad Statudol ar 26 Ionawr 2024, gan ddechrau'r Cyfnod Gwrthwynebu. Parhaodd hyn tan 23 Chwefror 2024. Yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, derbyniwyd cyfanswm o 1,440 o wrthwynebiadau erbyn y dyddiad cau, sef 23 Chwefror 2024. Dyma fanylion am y gwrthwynebiadau.

- 54 gwrthwynebiad ysgrifenedig.
- Llofnodwyd dwy ddeiseb gan 951 a 65 o ymatebwyr yn y drefn honno.
- Llofnododd 1,384 o ymatebwyr yn unigol wrthwynebiadau a ysgrifennwyd ymlaen llaw a gydlynwyd gan bwyllgor gweithredu 'Achub Ysgol Gynradd y Rhigos'. Dyma eiriad y gwrthwynebiad hwn: *'Nid wyf yn cytuno â'r cynnig oherwydd y wybodaeth ragfarnllyd, anghyflawn ac anghywir sydd yn y ddogfen ymgynghori a thuedd RhCT*

*drwy gydol y broses.' (cyfieithiad)*Dywedodd y Grŵp Gweithredu fod 1393 o wrthwynebiadau wedi'u cyflwyno, ond o ddileu'r cyflwyniadau gwag, cafodd 1384 eu cyfrif.

Daeth 55 o wrthwynebiadau i law yn ystod y cyfnod ymgynghori rhwng 2 Hydref 2023 a 17 Tachwedd 2023, i gael eu trin fel gwrthwynebiadau ac felly mae'r rhain wedi'u cynnwys yn y rhifau isod ac yn y crynodeb ysgrifenedig sy'n dilyn.

Mae'r tabl isod yn amlinellu crynodeb o gyfanswm y gwrthwynebiadau a dderbyniwyd.

| **Crynodeb o'r Gwrthwynebiadau a Dderbyniwyd** | |
|---|---|
| **Cyfnod** | **Nifer** |
| Cyfnod Gwrthwynebu | 1,440 |
| Cyfnod Ymgynghori | 55 |
| **Cyfanswm** | **1,495** |

Mae'r Adroddiad Gwrthwynebu yn crynhoi'r gwrthwynebiadau, ynghyd ag ymateb y Cyngor iddyn nhw. Mae'r cynnig yma'n cael ei wneud yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion – 2018 (2il fersiwn) (011/2018). Dylid nodi oherwydd y nifer fawr o ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori rhwng 2 Hydref 2023 a 17 Tachwedd 2023 sydd bellach wedi'u cynnwys fel gwrthwynebiadau ffurfiol, lle bo'n berthnasol mae'r un themâu, ac mewn rhai achosion yr un ymatebion, wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn â'r rhai sydd wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Ymgynghori.

Er cyflawnder, dylid nodi bod nifer o ymatebion wedi dod i law yn ystod y cyfnod ymgynghori a gwrthwynebu a oedd yn gwneud datganiadau a sylwadau mewn perthynas â materion gwleidyddol, ymddygiad staff, a materion ehangach CBSRhCT nad ydynt yn gysylltiedig â gofynion penodol parthed ymgynghori ar drefniadaeth ysgolion, ac felly dyw'r sylwadau hyn ddim wedi'u cynnwys yn y themâu isod. Bydd cyfle i'r rheiny sy'n dymuno trafod unrhyw bryderon eraill ynghylch y materion yma wneud hynny y tu hwnt i'r broses ymgynghori. Mae modd dod o hyd i ragor o wybodaeth am sut i fynegi eich barn ar wefan y Cyngor.

I gadarnhau, mae'r gwrthwynebiadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, a'r cyfnod ymgynghori cyn hynny, **i gyd** wedi cael eu hadolygu gan Aelodau o Gabinet Cyngor RhCT.

## 4. Gwrthwynebiadau ac Ymatebion

Mae'r tabl sy'n dilyn yn manylu ar y gwrthwynebiadau a dderbyniwyd ynghyd â'r ymatebion iddyn nhw.

| **Thema'r Gwrthwynebiadau** | | **Eglurhad** |
|---|---|---|
| **Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)** | Pa gymorth bydd ar gael ar gyfer disgyblion ADY? | Bydd pob disgybl ADY yn parhau i dderbyn cymorth. Mae Deddf ALNET yn darparu canllawiau manwl ar ddyletswyddau a chyfrifoldebau Cynghorau wrth ddiwallu ADY plant a phobl ifainc. Mae gan blant a phobl ifainc Anghenion Dysgu Ychwanegol |

| | | |
|---|---|---|
| | | os oes ganddyn nhw anhawster dysgu sy'n galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol ar eu cyfer.<br><br>Mae Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru (2021) yn argymell bod lleoliadau'r blynyddoedd cynnar ac ysgolion yn rhoi ymateb graddedig ar waith o ran diwallu'r anghenion yma. Mae ymateb graddedig yn golygu bod modd cyflwyno rhagor o arbenigedd a rhagor o gymorth er mwyn mynd i'r afael ag anawsterau y mae plentyn neu unigolyn ifanc yn eu hwynebu. Dylid gwneud darpariaeth ychwanegol neu wahanol gan ddibynnu ar ddifrifoldeb lefel angen y plentyn / person ifanc.<br><br>Byddwn ni'n cyflawni'r ddyletswydd a'r cyfrifoldeb yma waeth pa math o ysgol mae'r plentyn yn ei mynychu. |
| | Bydd disgyblion Ysgol Gynradd y Rhigos yn teimlo ar goll mewn ysgol maint Ysgol Gynradd Hirwaun. | Fel sydd wedi'i nodi uchod, mae dyletswydd a chyfrifoldeb ar Gynghorau i ddisgyblion dderbyn y cymorth sydd ei angen arnyn nhw, waeth beth yw maint yr ysgol.<br><br>Efallai bydd creu ysgolion mwy yn meithrin gallu o fewn strwythurau staffio ac yn creu cyfleoedd i ddatblygu swyddi lles a/neu gyswllt teuluol mwy arbenigol a fydd yn amlwg o fudd i blant a theuluoedd mwy agored i niwed. |
| **Derbyn disgyblion** | Fydd fy mhlentyn ddim yn mynychu Ysgol Gynradd Hirwaun. | Dewis y rhiant/gwarcheidwad/cynhaliwr (gofalwr) yw ysgol y plentyn. Byddwn ni'n ymdrin â cheisiadau yn unol â chod Derbyn Disgyblion yr Ysgol (05/2013). |
| | Beth os nad ydw i am i fy mhlentyn fynychu Ysgol Gynradd Hirwaun? | |
| | Adroddiadau am broblemau gyda chyflwyno cais am le yn Ysgol Gynradd y Rhigos ar gyfer mis Medi 2024. | Yn ystod y cyfnod cyflwyno cais, rhwng 1 Medi 1, 2023, a 10 Tachwedd, 2023, derbyniodd CBSRhCT geisiadau ar-lein am leoedd cyn meithrin, meithrin a derbyn ar gyfer Ysgol Gynradd y |

| | | |
|---|---|---|
| | | Rhigos ar gyfer blwyddyn academaidd 2024.<br><br>I nodi, bu cyfnod o amser yn ystod y cyfnod ymgeisio pan nad oedd pob rhiant/cynhaliwr ar draws Rhondda Cynon Taf (RhCT) yn gallu gwneud cais ar-lein oherwydd bod gwaith hanfodol yn cael ei wneud ar y system ar-lein o 2 Hydref, 2023, hyd at 3 Hydref, 2023.<br><br>Mae'r garfan Derbyn Disgyblion Cyngor RhCT wedi cadarnhau eu bod wedi derbyn galwad ffôn gan riant/cynhaliwr o ardal y Rhigos yn gofyn am gopi caled o'r ffurflen gais, fodd bynnag daeth i'r amlwg bod yr unigolyn eisoes wedi gwneud cais llwyddiannus am le ar-lein. Cafodd y rhiant wybod hyn ar y pryd. |
| **Gweithgareddau allgyrsiol** | Sut bydd disgyblion yn manteisio ar glybiau ar ôl ysgol? | Cyfrifoldeb yr ysgolion unigol yw darparu clybiau ar ôl ysgol ac er eu bod nhw'n ddarpariaethau pwysig, dylid nodi nad ydyn nhw'n ofyniad statudol.<br><br>Gan mai dyma'r achos ledled RhCT, fydd dim cludiant ar gael rhwng y cartref a'r ysgol er mwyn manteisio ar y clybiau. Bydd cludiant yn cael ei ddarparu ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol. |
| | Mae dogfen yr ymgynghoriad yn nodi y bydd y cynnig yn darparu rhagor o gyfleoedd ar gyfer gweithgareddau allgyrsiol, ond bydd hyn yn lleihau oherwydd y problemau yn ymwneud â chludiant. | Mae hyn yn cyfeirio at y nifer o fannau aml-fynediad mewnol ac allanol sydd ar gael yn Ysgol Gynradd Hirwaun y mae modd manteisio arnyn nhw at y dibenion yma. Mae cyfleusterau hygyrch Ysgol Gynradd Hirwaun yn arwain at ragor o gyfleoedd.<br><br>Gan mai dyma'r achos ledled RhCT, fydd dim cludiant ar gael rhwng y cartref a'r ysgol er mwyn manteisio ar y clybiau. Bydd cludiant yn cael ei ddarparu ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol. |
| | Mae llawer o weithgareddau | Does neb yn gwadu hynny. Mae dogfen yr ymgynghoriad yn nodi mai |

| | | |
|---|---|---|
| | allgyrsiol eisoes ar gael yn Ysgol y Rhigos. | barn y Cyngor yw bod Ysgol Gynradd y Rhigos yn ysgol dda. Nodir yn yr Asesiad Effaith ar y Gymuned fod nifer o glybiau ar ôl ysgol a digwyddiadau cymunedol yn cael eu cynnal yn y ddwy ysgol. |
| **Clwb Brecwast** | Sut bydd disgyblion yn manteisio ar glybiau brecwast? | Cyfrifoldeb yr ysgolion unigol yw clybiau brecwast ac er eu bod nhw'n ddarpariaethau pwysig, dylid nodi nad ydyn nhw'n ofyniad statudol. Gan mai dyma'r achos ledled RhCT, fydd dim cludiant ar gael rhwng y cartref a'r ysgol er mwyn manteisio ar y gweithgareddau yma. Bydd cludiant yn cael ei ddarparu ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol.<br><br>Fodd bynnag, os oes unrhyw blentyn sy'n defnyddio cludiant i'r ysgol yn dymuno cael brecwast ar ôl cyrraedd yr ysgol, byddwn ni'n sicrhau bod trefniadau yn eu lle er mwyn iddo/iddi gael brecwast.<br><br>Mae'r clwb brecwast yn Ysgol Gynradd Hirwaun yn boblogaidd iawn ac mae oddeutu 53 o ddisgyblion yn derbyn brecwast yno bob dydd. Y nifer cyfartalog o ddisgyblion sy'n manteisio ar glwb brecwast yn y Rhigos yw 13, felly bydd digon o le ar gael i unrhyw ddisgyblion sy'n dymuno cael brecwast. Mae'r ffigurau yma wedi'u cyfrifo yn gyfartaledd dyddiol ar gyfer presenoldeb dros hanner tymor cyntaf blwyddyn academaidd 2023. |
| | Cafodd clwb brecwast Ysgol y Rhigos ei bleidleisio'r gorau yng Nghymru yn 2022. | Mae'r Cyngor yn effro i'r cyflawniad arbennig yma, ac mae cymuned yr ysgol yn falch iawn. Darparodd Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant Cyngor RhCT ddatganiad yn llongyfarch yr ysgol ar ôl derbyn y wobr. Mae Gwasanaethau Arlwyo Cyngor RhCT yn gyfrifol am ddarparu clybiau brecwast mewn partneriaeth ag ysgolion. |
| **Cyflwr yr adeilad** | Pam oedd yr arolwg ar gyflwr yr adeilad a'i | Cynhelir arolygon cyflwr eiddo bob pum mlynedd. Mae hyn yn cyd-fynd |

| | | |
|---|---|---|
| | defnyddiwyd yn bedair blwydd oed? | ag amserlen safonol y diwydiant, felly mae'r arolwg cyflwr eiddo a ddefnyddiwyd yn dal yn ddilys.<br><br>Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 Llywodraeth Cymru (011/2018) yn nodi'r canlynol:<br><br>*'Gwybodaeth am ansawdd adeiladau ac ystafelloedd ym mhob un o'r ysgolion presennol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arnynt, gan gynnwys cyfeiriad at arolwg diweddaraf yr awdurdod lleol o gyflwr yr ysgol, gan ddefnyddio categorïau'r Arolwg Ysgolion gwreiddiol ar gyfer yr 21ain Ganrif'.*<br><br>Mae'r wybodaeth yma wedi'i chynnwys yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018 Llywodraeth Cymru (011/2018). Arolwg 2019 oedd yr arolwg mwyaf diweddar, felly defnyddiwyd hwnnw.<br><br>Cafodd copi o'r arolwg ar gyflwr ei rannu â'r rhai a ofynodd am gopi yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad. |
| | Faint o waith sydd wedi'i gynnal ar Ysgol Gynradd y Rhigos ers cynnal yr arolwg? | Mae llawer o waith wedi'i gynnal ar Ysgol Gynradd y Rhigos ers cynnal yr arolwg yn 2019. Mae'r gwaith yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:<br><br>• Ffenestri a drysau newydd<br>• Ffensys a giatiau newydd<br>• System ddraenio ac arwyneb newydd<br>• Trwsio'r to<br>• Gwaith uwchraddio mecanyddol a thrydanol |
| | Faint o arian sydd wedi'i wario ar Ysgol Gynradd y Rhigos ers 2019? | Mae dros £180,000 wedi'i wario ar Ysgol Gynradd y Rhigos, gan gynnwys y gwiriadau cynnal a chadw cylchol. Mae modd dadansoddi'r ffigur yma fel y ganlyn:<br><br>• Gwaith wedi'i gyllido drwy'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth Cynnal a Chadw Adeiladau ar |

| | | |
|---|---|---|
| | | gyfer gwaith trwsio a chynnal a chadw - £94,084.<br>• Gwaith wedi'i gyllido'n uniongyrchol gan y Cyngor - £79,736.<br>• Gwaith wedi'i gyllido gan y cyllid a ddyranwyd i'r ysgol - £7,876. |
| | Pam nad yw'r gwaith sydd wedi'i nodi yn yr arolwg ar gyflwr wedi'i gynnal? | Mae rhywfaint o waith sydd wedi'i nodi yn yr arolwg ar gyflwr wedi'i gynnal. Mae gwaith yn cael ei gynnal yn rhagweithiol ac yn ymatebol ar draws RhCT, ac mae'r gwaith hwnnw wedi'i flaenoriaethu ar sail y cyllid sydd ar gael.<br><br>Yn ogystal â hynny, mae llawer o waith wedi'i gynnal nad oedd wedi'i nodi yn yr arolwg, gan gynnwys gwaith iechyd a diogelwch a diogelu.<br><br>Mae'r arolwg cyflwr eiddo yn nodi cyflwr adeilad ar bwynt mewn amser ac yn cael ei ddefnyddio fel offeryn i CBSRhCT reoli ei ystâd ac felly mae angen ei wneud yn gyson. Mae gan CBSRhCT gyfanswm o 115 o ysgolion ar draws 116 o safleoedd i'w rheoli. Cynhelir ymweliadau rheolaidd gan Dîm Cynnal a Chadw Corfforaethol CBSRhCT ac mae materion yn cael eu nodi ar sail blaenoriaeth ac yn cael eu cynnal pan fo angen. Mae Ysgol Gynradd Rhigos wedi bod mewn cysylltiad rheolaidd â Thîm Cynnal a Chadw Corfforaethol RCTCBC ac wedi ymweld â hi'n rheolaidd ganddi.<br><br>Dyw'r arolygon cyflwr eiddo ddim yn cael eu diweddaru bob tro y gwneir gwaith cynnal a chadw ar ysgol, fyddai gan y Cyngor mo'r arian na'r adnoddau i gyflawni'r dasg hon. |
| | Pam nad yw'r Cyngor wedi gofalu am ei adeiladau? | Mae dyletswydd ar y Cyngor i sicrhau bod ei adeiladau'n ddiogel, yn dal dŵr ac yn gynnes. Mae'r Cyngor wedi gwneud hynny. Fel sydd wedi'i nodi uchod, mae Carfan Cynnal a Chadw Eiddo'r Cyngor a'i gontractwyr wedi ymweld ag Ysgol Gynradd y Rhigos |

| | | |
|---|---|---|
| | | yn rheolaidd. Mae'r Cyngor hefyd yn cynnal gwiriadau cynnal a chadw cylchol ac arolygon o offer mecanyddol a thrydanol.<br><br>Mae pob ysgol yn Rhondda Cynon Taf yn rhan o Gytundeb Lefel Gwasanaeth ac mae gwaith yn cael ei gynnal a'i reoli drwy'r cytundeb yma. Ar sawl achlysur, mae'r Cyngor wedi talu am waith yn Ysgol Gynradd y Rhigos er mai cyfrifoldeb Corff Llywodraethu'r ysgol oedd ei gynnal, gan nad oedd gan yr ysgol ddigon o arian i dalu am y gwaith. |
| | Pam mae un o'r adeiladau yn Ysgol Gynradd y Rhigos wedi cyrraedd 'terfyn ei oes / y tu hwnt i waith trwsio economaidd'? Beth mae hyn yn ei olygu? | Rydyn ni'n defnyddio'r term 'y tu hwnt i waith trwsio economaidd' i ddisgrifio ased sydd angen gwaith trwsio a fyddai'n costio mwy na gwerth yr adeilad. Dydy hyn ddim yn golygu nad ydy'r adeilad yn ddiogel. |
| | Pam gwrthodwyd caniatâd i aelod o Grŵp Gweithredu Ysgolion Cynradd Save Rhigos gynnal eu harolwg eu hunain yn ystod yr ymgynghoriad? | Mae'r Cyngor yn rheoli 115 o ysgolion ar 116 o safleoedd felly mae'n bwysig bod yr arolygon cyflwr yn cael eu cynnal mewn ffordd gyson er mwyn i'r Cyngor reoli ei eiddo addysgol a blaenoriaethu gwaith. Fyddai dim modd cymharu arolwg wedi'i gynnal gan drydydd parti ar ysgol benodol â'n gweithdrefnau ni oherwydd goddrycholdeb y broses o gynnal arolwg cyflwr.<br><br>Does dim rhagfarn yn rhan o'r arolwg a gynhaliwyd yn 2019.<br><br>Ers i'r cyfnod gwrthwynebu ddod i ben, hysbyswyd CBSRhCT gan Gadeirydd y Llywodraethwyr fod y Corff Llywodraethol wedi comisiynu trydydd parti i gynnal arolwg cyflwr eiddo yn Ysgol Gynradd Rhigos. Ar adeg ysgrifennu'r Adroddiad Gwrthwynebu hwn nid yw'r arolwg hwn o gyflwr eiddo wedi'i gynnal eto ac mae CBSRhCT yn aros am fanylion y dyddiad y mae'r arolwg cyflwr eiddo yn bwriadu cael ei |

| | | |
|---|---|---|
| | | gwblhau. Mae CBSRhCT, fel perchennog yr adeilad, wedi gofyn am gopi o adroddiad yr arolwg cyflwr eiddo ar ôl i'r trydydd parti ei gwblhau. |
| | Mae adeilad ysgol pwrpasol ar gyfer yr 21ain ganrif yn helpu plant i elwa o amgylchedd dysgu sydd eisoes yn meithrin a chefnogi disgyblion – dyw addysg ddim yn ymwneud â'r adeilad.<br><br>Gallai adeilad newydd sgleiniog yn Hirwaun gynnig amgylchedd braf i ddisgyblion, ond mae tystiolaeth yn awgrymu y bydd hyn yn amharu ar eu cyrhaeddiad addysgol. Mae eich dogfen ymgynghori yn ceisio wfftio hyn, gan anwybyddu'n llwyr y data y mae'n ei gyflwyno o adroddiad diweddaraf Estyn. | Mae'r Ddogfen Ymgynghori yn nodi'r manteision y gallai ysgol newydd, bwrpasol, fwy eu cynnig.<br><br>Mae gwella amgylcheddau addysgol i ddisgyblion wrth galon Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu Llywodraeth Cymru. Mae'n nod cyfredol craidd i Lywodraeth Cymru, ac mae ei buddsoddiad parhaus yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Mae Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu yn rhestru 'Trawsnewid amgylcheddau dysgu a phrofiad y dysgwr' yn ogystal â 'Gwella cyflwr ac addasrwydd yr ystad addysg' fel ei hamcanion buddsoddi gan ddangos yn glir bwysigrwydd gwella'r amgylcheddau dysgu yn ein lleoliadau addysgol.<br><br>Mewn perthynas â'r sylwadau ynghylch adroddiadau diweddaraf Estyn, yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion LlC 2018 (011/2018) darparwyd ymateb Estyn i'r cynnig yn llawn yn Atodiad Un y Ddogfen Ymgynghori. Bu tryloywder llawn mewn perthynas â chyhoeddi canfyddiadau'r arolygiadau hyn.<br><br>Mae Estyn wedi ystyried elfennau addysgol y cynnig a'u casgliad nhw yw bod y cynnig yn debygol o gynnal ansawdd addysg a deilliannau i ddisgyblion yr ardal ar y lleiaf.<br><br>Mae ymateb Estyn yn nodi ymhellach:<br><br>Bod yr 'Awdurdod Lleol wedi nodi rhesymeg glir ar gyfer y cynnig. Mae'r cynnig yn amlinellu'r nifer o fuddion sy'n gysylltiedig â chau Ysgol |

| | | |
|---|---|---|
| | | Gynradd y Rhigos a throsglwyddo disgyblion i Ysgol Gynradd Hirwaun'. |
| | Sut mae Ysgol Gynradd y Rhigos yn mynd yn groes i Ddeddf Cydraddoldeb 2010? | Dydy safle ac adeiladau Ysgol Gynradd y Rhigos ddim yn hygyrch iawn at eil gilydd, er bod lle i wella. Wrth edrych ar nodwedd warchodedig 'anabledd' yn unig, dydy'r ysgol ddim yn cydymffurfio â'r ddeddf. Oherwydd topograffeg ac oed yr adeiladau, fydd rhai mannau o safle Ysgol Gynrad y Rhigos ddim yn hygyrch i'r rheiny sy'n profi anawsterau symudedd a phobl sy'n defnyddio cadeiriau olwyn. Yn ogystal â hynny, does dim ystafell hylendid ar gael yn yr ysgol.<br><br>Bwletin Adeiladu 99 (BB99): Mae pob Cyngor yng Nghymru yn defnyddio Fframwaith Briffio ar gyfer Prosiectau Ysgolion Cynradd yn ganllaw i adeiladu ysgolion newydd. Mae BB99 yn nodi'r canlynol:<br><br>*O ran cyd-destun cynllun y dosbarthiadau, mae 'cwbl hygyrch' yn golygu bod modd i ddisgybl sy'n defnyddio cadair olwyn gael mynediad i bob rhan o'r ystafell, ac felly mae modd iddo gymryd rhan mewn gweithgareddau'n rhwydd.* |
| **Effaith ar y Gymuned** | Mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yn brin o wybodaeth. | I gadarnhau, mae'r hyn sydd wedi'i gynnwys yn yr Asesiad yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru 2018 (011/2018).<br><br>Fodd bynnag, yn ôl y cyngor yn yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned, mae'r ddogfen wedi'i hailasesu a'i diweddaru yn dilyn adolygiad o'r sylwadau sydd wedi'u derbyn trwy gydol y broses ymgynghori. Mae'r fersiwn diweddaraf o'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned ar gael ar wefan CBSRhCT. |
| | Beth fydd yn digwydd ar safle Ysgol Gynradd y Rhigos? Mae dogfen yr ymgynghoriad yn crybwyll y byddai | Bydd ymgynghoriad ar wahân ar gyfer ystyriaethau ac opsiynau ar unrhyw ddefnydd posibl o safle Ysgol Gynradd y Rhigos yn y dyfodol. |

| | | |
|---|---|---|
| | modd ei defnyddio er budd i'r gymuned. | Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai cydweithwyr yng ngharfan Datblygu'r Gymuned y Cyngor yn gweithio â chymuned leol y Rhigos i nodi unrhyw opsiynau hyfyw a chynaliadwy i'r gymuned. Bydd carfan Datblygu'r Gymuned hefyd yn cefnogi unrhyw grwpiau yn y gymuned i nodi unrhyw gyllid sydd ar gael i ddiogelu a datblygu unrhyw ddarpariaeth ac yn eu cefnogi nhw i wneud hynny. |
| | Bydd plant yn colli eu hunaniaeth ddiwylliannol os bydd yr ysgol yn cau; eu 'cynefin'. | Bydd nifer o gyfleoedd i ddisgyblion ddysgu am eu hardal leol a'u hunaniaeth ddiwylliannol wrth iddyn nhw fod yn rhan o'r Cwricwlwm i Gymru a datblygu eu dysgu trwy ymholi.<br><br>Tua 2 filltir o'r Rhigos y mae pentref Hirwaun, felly dydyn ni ddim yn disgwyl y bydd hyn yn broblem i unrhyw ddisgybl. |
| | Os bydd yr ysgol yn cau bydd effaith negyddol ar y gymuned yn economaidd. | Does dim tystiolaeth uniongyrchol i awgrymu hyn. Pe bai'r cynnig yn mynd yn ei flaen byddai cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol ar gyfer unrhyw ddisgyblion sy'n dymuno mynychu Ysgol Gynradd Hirwaun, felly dydyn ni ddim yn ystyried y bydd y cynnig hwn yn effeithio'n andwyol ar brisiau tai nac yn atal teuluoedd newydd rhag symud i'r ardal. Mae effeithiau economaidd a chymdeithasol fel y rhain yn amlochrog ac yn seiliedig ar nifer o ffactorau.<br><br>Dydyn ni ddim yn ystyried y bydd y cynnig yn cael effaith economaidd negyddol ar y gymuned leol. |
| | Fydd cylchoedd rhieni a phlant bach sy'n cael eu cynnal yn y Rhigos yn symud i Hirwaun? | Mae'r Cyngor yn effro i'r cylchoedd rhieni a phlant bach sy'n cael eu cynnal yn Ysgol Gynradd y Rhigos un dydd yr wythnos. Mae ystafell arbennig ar gael yn Ysgol Gynradd Hirwaun petai'r arweinydd yn dymuno sefydlu cylch rhieni a phlant bach yn Ysgol Gynradd Hirwaun. |

| | | |
|---|---|---|
| **Deilliannau addysgol** | Fydd disgyblion Ysgol Gynradd y Rhigos ddim yn derbyn yr un profiadau addysgol yn Ysgol Gynradd Hirwaun.<br><br>Dylai Estyn gynnal arolwg ar y ddwy ysgol cyn dod i benderfyniad. | Yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru 2018 (011/2018), mae'r ymateb i'r cynnig gan Estyn wedi'i ddarparu'n llawn yn Atodiad 1 y Ddogfen ymgynghori.<br><br>Dydy Estyn ddim yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru 2018 (011/2018) ac nid yw'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Fodd bynnag, mae Estyn yn gorff statudol ar faterion fel hyn ac felly mae wedi darparu barn ar ffactorau buddiol y cynigion.<br><br>Mae Estyn wedi ystyried elfennau addysgol y cynnig a'u casgliad nhw yw bod y cynnig yn debygol o gynnal ansawdd addysg a deilliannau i ddisgyblion yr ardal ar y lleiaf.<br><br>Mae ymateb Estyn yn nodi ymhellach:<br><br>Bod yr 'Awdurdod Lleol wedi nodi rhesymeg glir ar gyfer y cynnig. Mae'r cynnig yn amlinellu'r nifer o fuddion sy'n gysylltiedig â chau Ysgol Gynradd y Rhigos a throsglwyddo disgyblion i Ysgol Gynradd Hirwaun'. |
| | Pam cau ysgol 'dda' yn hytrach nag un sydd angen 'gwella arwyddocaol'? | Mae dogfen yr ymgynghoriad yn cydnabod bod Ysgol Gynradd y Rhigos yn ysgol dda. Does neb yn gwadu hynny.<br><br>Cafodd arolwg Ysgol Gynradd Hirwaun egan Estyn i gynnal yn 2018, ac yn y flwyddyn ganlynol cynhaliodd Estyn ymweliad pellach. Ar ôl yr ymweliad dywedodd Estyn bod yr ysgol wedi gwneud cynnydd arwyddocaol mewn perthynas â'u hargymhellion.<br><br>O ganlyniad i hyn, tynnodd Estyn Ysgol Gynradd Hirwaun oddi ar y |

| | | |
|---|---|---|
| | | rhestr o ysgolion sydd angen 'gwella arwyddocaol' a nodi nad oedd angen cynnal rhagor o ymweliadau. Mae arolygiad yn rhoi cipolwg ar ysgol ar yr adeg honno, fyddai Ysgol Gynradd Hirwaun ddim wedi'i thynnu o'r categori pe bai unrhyw un o bryderon Estyn yn parhau.<br><br>Mae'n bwysig nodi bod cyflawniad a gwelliannau ysgolion yn newid dros amser. Wrth lunio'r cynnig, roedd y ddwy ysgol yn derbyn cymorth craidd gan wasanaethau gwella ysgolion Consortiwm Canolbarth y De. Does yr un o'r ddwy ysgol angen rhagor o gymorth oherwydd problemau amlwg. |
| | Y gallu i ddarparu'r Cwricwlwm i Gymru'n llwyddiannus. | Mae dogfen yr ymgynghoriad yn cydnabod bod athrawon Ysgol y Rhigos yn darparu addysg wych i ddisgyblion, ond mae hefyd yn nodi'r heriau wrth ddarparu'r Cwricwlwm i Gymru mewn ysgol fach sy'n mynd yn hŷn.<br><br>Does dim sôn yn y Ddogfen Ymgynghori nad yw staff Ysgol Gynradd y Rhigos yn cyflawni eu rhwymedigaethau o ran darparu Cwrciwlwm i Gymru. Mae'r Ddogfen Ymgynghori yn amlygu'r anawsterau o wneud hynny o fewn y paramedrau diffiniedig yn Ysgol Gynradd y Rhigos mewn perthynas â'i maint a'i hoedran, a'r her barhaus y bydd hyn yn ei chreu o ystyried y gostyngiad yn y niferoedd a ragwelir yn Ysgol Gynradd y Rhigos. Mae'r posibilrwydd o fodelau arweinyddiaeth wedi'i gyfyngu mewn ysgolion llai oherwydd bod y gweithlu'n llai. |
| | Bydd llai o ryngweithio rhwng rhieni ac athrawon, a bydd perthnasoedd yn dioddef gan fod disgyblion yn cael eu cludo i'r ysgol ar fws. | Mae plant eisoes yn teithio o gymuned Penderyn i Ysgol Gynradd Hirwaun felly mae'r ysgol wedi sefydlu systemau er mwyn sicrhau bod rhieni/gwarcheidwaid yn effro i'r holl faterion sydd wedi codi yn yr ysgol. Pe bai'r cynnig yma'n mynd |

| | | |
|---|---|---|
| | | rhagddo, byddai'r system yma'n parhau er mwyn cefnogi disgyblion newydd sy'n ymuno â'r ysgol a'u teuluoedd. |
| | Mae'r Cwriclwm yn addas iawn ar gyfer dysgu fertigol, sy'n golygu bod y trefniant presennol o ddysgu oedran cymysg yn fodel addysgol cynaliadwy.<br><br>Mae'n nodi bod plant sy'n cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau wedi'u ffrydio'n fertigol yn creu heriau ar gyfer addysgu a dysgu.<br>Ble mae'r dystiolaeth o hyn? | Ar hyn o bryd mae gan Ysgol Gynradd y Rhigos dri dosbarth sy'n cael eu ffrydio'n fertigol, ac mae dau o'r tri dosbarth yn addysgu disgyblion ar draws tri grŵp blwyddyn. O ystyried y gostyngiad a ragwelir yn nifer y disgyblion yn yr ysgol, bydd y sefyllfa yma'n dod yn fwy heriol fyth ymhen amser.<br><br>Mae heriau wrth addysgu disgyblion sydd wedi'u grwpio'n fertigol. Mewn dosbarth sy'n cael ei ystyried â'r nifer safonol o ddisgyblion, bydd bob amser ystod o alluoedd y bydd angen darparu ar eu cyfer trwy wahaniaethu effeithiol er mwyn sicrhau bod y gwaith yn cwrdd ag anghenion y disgyblion i sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd cryf yn eu dysgu a'u bod yn cael eu herio'n briodol. Mewn ysgol fach, megis Ysgol Gynradd y Rhigos, lle mae grwpiau fertigol ac ystod eang o alluoedd, gall fod yn heriol i'r staff addysgu a'r staff cymorth ddiwallu'r ystod eang o anghenion academaidd, yn ogystal ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol, yr holl ddisgyblion. Cydnabyddir yn y Ddogfen Ymgynghori fod Ysgol Gynradd y Rhigos yn cynnig profiadau dysgu cadarnhaol i ddisgyblion. Serch hynny, gall addysgu grwpiau blwyddyn lluosog o fewn un amgylchedd ystafell ddosbarth fod yn her sylweddol. Yn amlwg, mae modd mynd i’r afael â hyn trwy addysgu a dysgu hynod effeithiol a thrwy wahaniaethu helaeth - a does neb yn gwadu hynny, ond gall hyn fod yn fwy heriol pan fydd gyda chi hyd at 3 grŵp blwyddyn mewn un ystafell ddosbarth. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Dylid nodi mai dim ond ar gyfer Pennaeth a dau athro y bydd yr ysgol yn cael ei hariannu o’r flwyddyn academaidd 2024 ymlaen wrth i nifer y plant oed ysgol statudol (yn y dosbarth derbyn i flwyddyn chwech) barhau i ostwng. Os nad oes gan Ysgol Gynradd y Rhigos ddigon o gyllid ychwanegol i gyflogi trydydd athro o’i chyllideb ei hun, yna bydd hyn eto’n ychwanegu at yr her addysgu, dysgu, asesu a llwyth gwaith fel yr amlinellwyd a *gall* mynnu bod nifer y grwpiau blwyddyn sydd wedi'u cynnwys ym mhob dosbarth yn cynyddu o dri i bedwar. Yna mae'r holl faterion a grybwyllwyd mewn perthynas â'r tri grŵp blwyddyn gyda'i gilydd yn cael eu chwyddo a'u dwysáu trwy gael pedwar grŵp blwyddyn gyda'i gilydd. |
| **Niferoedd a chapasiti disgyblion** | Sut mae rhagamcanion disgyblion yn cael eu cyfrifo? | O ran rhagamcanion disgyblion, mae'r Cyngor yn casglu data geni gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ar gyfer ardal Rhondda Cynon Taf. Mae'r bwrdd iechyd yn darparu dyddiad geni a chod post pob disgybl. Mae hefyd lwfans ar gyfer datblygiadau tai newydd a disgyblion presennol er mwyn sicrhau bod y rhagamcanion yn gywir.<br><br>Mewn perthynas â disgyblion sydd eisoes yn yr ysgol, rydyn ni'n defnyddio'r dull cadw cohort. Mae hyn yn golygu cymryd yn ganiataol bod nifer y disgyblion ym mhob blwyddyn yr un ffigur â'r flwyddyn flaenorol, a lluosi'r ffigur hwnnw â ffigur cyson. |
| | Pam gafodd Ysgol Gynradd Hirwaun ei hadeiladu â chapasiti mor fawr? | Mae gan Gynllun Datblygu Lleol cyfredol y Cyngor, a'i fabwysiadwyd yn 2011, ddyraniad tai arwyddacaol wedi'i nodi yn rhan o safle strategol yn rhan o ddalgylch Ysgol Gynradd Hirwaun. Yn ogystal â hynny, pan gafodd yr ysgol ei datblygu roedd cyfleoedd twristiaeth a masnachol hefyd yn cael eu datblygu yn ogystal |

| | | |
|---|---|---|
| | | â'r cynlluniau ar gyfer troi'r A465 yn ffordd ddeuol. Gan fod llawer o sylw ar yr ardal yma ar lefel ranbarthol ar y pryd ac hyd heddiw, byddai'r Cyngor wedi colli cyfle drwy beidio â chynnwys capasiti ychwanegol yn yr ysgol.<br><br>Mae CDLl diwygiedig CBSRhCT yn cael ei baratoi ar hyn o bryd ac ers diwedd y cyfnod gwrthwynebu, mae'r CDLl drafft bellach ar gael ar wefan CBSRhCT ac yn destun ymgynghoriad. Dylid nodi nad yw'r CDLl drafft yn cynnwys unrhyw ddyraniad tai a nodwyd yn nalgylch presennol Ysgol Gynradd Hirwaun, fodd bynnag, mae'n parhau i fod yn safle allweddol ar gyfer cyflogaeth a thwristiaeth.<br><br>Rydyn ni'n gwrthbrofi unrhyw sylwadau sy'n honni bod maint Ysgol Gynradd Hirwaun yn ymwneud ag unrhyw beth heblaw am gynllunio ar gyfer y twf disgwyliedig adeg codi'r ysgol. |
| | Mae lleoedd gweigion mewn llawer o ysgolion ar draws RhCT, pam Ysgol Gynradd y Rhigos yn unig sy'n cael ei heffeihtio. | Mae dyletswydd statudol ar y Cyngor i reoli capsiti ei ysgolion yn effeithiol. Mae lleoedd, capasiti, derbyn a rhagamcanion ysgolion yn cael eu craffu'n barhaus. Mae'r Cyngor wedi rhoi cynigion aildrefnu ar waith sydd wedi effeithio ar dros 40 o ysgolion dros y 10 mlynedd diwethaf, a byddwn ni'n parhau i adolygu pob ysgol.<br><br>Rhaid cynnwys gwybodaeth am gapasiti pob ysgol sy'n cael ei heffeithio gan y cynnig ym mhob dogfen yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru 2018 (011/2018). Fydd yr ymgynghoriad ddim yn ddilys heb gynnwys yr wybodaeth yma.<br><br>Mae'r cynnig yma wedi'i baratoi ar gyfer yr ymgynghoriad am nifer o resymau. Dydy'r rhesymeg dros y |

| | | |
|---|---|---|
| | | cau ddim yn seiliedig ar un ffactor yn unig. Mae capasiti Ysgol Gynradd y Rhigos wedi'i gynnwys er gwybodaeth, ynghyd â setiau data eraill er mwyn sicrhau bod rhanddeiliaid yn effro i'r darlun ehangach ar gyfer y cynnig dan sylw. |
| | Pam nad yw disgyblion meithrin wedi cael eu cynnwys? | Mae disgyblion meithrin wedi eu cynnwys. Mae'r wybodaeth yn y Ddogfen Ymgynghori yn cynnwys gwybodaeth am blant oed ysgol 'statudol' (derbyn i flwyddyn chwech) a phlant oed ysgol 'anstatudol' (Cyn-feithrin a meithrin).<br><br>Mae niferoedd y disgyblion meithrin anstatudol presennol ar y gofrestr yn Ysgol Gynradd y Rhigos ac Ysgol Gynradd Hirwaun, yn ogystal â'r rhagamcanion meithrin, wedi'u cynnwys yn y Ddogfen Ymgynghori. Mae cyfeiriadau hefyd at nifer y disgyblion oed ysgol statudol ar y gofrestr yn Ysgol Gynradd y Rhigos ac Ysgol Gynradd Hirwaun, yn ogystal â'r rhagamcanion oedran statudol. |
| | Methodoleg rhagamcanu niferoedd disgyblion ddim yn gywir | Dyna'n union yw amcanestyniadau disgyblion, maen nhw'n amcanestyniadau ac maen nhw bob amser yn seiliedig ar amcangyfrifon gorau gyda'r wybodaeth sydd ar gael ar unrhyw adeg benodol.<br><br>I nodi, yn flynyddol dros y pum mlynedd diwethaf, mae'r amrywiad rhwng rhagamcanion disgyblion cynradd CBSRhCT, a niferoedd disgyblion cynradd gwirioneddol, ar gyfartaledd yn llai nag 1.0%. |
| **Gwledig Categoreiddio ysgolion** | Pam nad yw Ysgol Gynradd y Rhigos yn cael ei hystyried yn ysgol wledig? | Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion LlC 2018 (011/2018) yn cynnwys rhestr o ysgolion gwledig ar gyfer y rhagdybiaeth gweithdrefnol yn erbyn cau ysgolion gwledig. Oherwydd hynny, mae Cod Trefniadaeth Ysgolion LlC 2018 (011/2018) yn nodi bod dosbarthiad Trefol Wledig y Swyddfa Ystadegau wedi'i |

| | | |
|---|---|---|
| | | ddefnyddio yn sail ar gyfer dosbarthu ysgolion at y diben yma.<br><br>Mae'r ysgolion gwledig ar y rhestr wedi'u lleoli mewn pentrefi sy'n bell o bentrefi eraill, eraill (pentrefan neu anheddiad gwasgaredig) yn y cyd-destun pellaf, ac eraill (pentrefan neu anheddiad gwasgaredig) mewn cyd-destun sydd ddim mor bell. Does dim ysgol yn Rhondda Cynon Taf ar y rhestr o ysgolion gwledig gan nad oes unrhyw ysgol yn yr ardal yn diwallu'r meini prawf uchod.<br><br>Er eglurder, mae pentrefi y Rhigos a Hirwaun wedi'u nodi yn bentrefi gwledig ar wefan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, ond does yr un o'r ddau yn diwallu'r meini prawf i fod ar y rhestr fel sydd wedi'i nodi uchod. |
| | Roedd CBSRhCT yn derbyn Grant Ysgolion Bach a Gwledig gan Lywodraeth Cymru a ddyrannwyd i Ysgol Gynradd y Rhigos, mae hyn yn dangos bod CBSRhCT yn cydnabod ei statws gwledig. | Mae hyn yn wir. Ysgol Gynradd y Rhigos oedd un o'r ysgolion a dderbyniodd gyllid drwy'r grant yma. Ers 2017/18, mae 13 ysgol ledled Rhondda Cynon Taf wedi derbyn y grant yma.<br><br>O ystyried nad oes unrhyw ysgolion 'gwledig' dynodedig yn RhCT, dyfarnwyd y grant hwn oherwydd y niferoedd bach o ddisgyblion yn yr ysgolion sy'n derbyn y cyllid. |
| **Trafnidiaeth a theithio** | Dydy'r costau cludiant rhwng yr ysgol a gartref ddim ar gael. | Mae'n anochel y bydd cost ar gyfer cludiant rhwng yr ysgol a gartref ac mae hyn wedi'i gydnabod yn y ddogfen ymgynghori, ac wedi'i nodi'n anfantais yn yr asesiad ar y cynnig.<br><br>Pe bai'r cynnig yma'n symud i'r cam nesaf, byddai unrhyw gytundeb cludiant rhwng yr ysgol a gartref yn destun proses dendro gystadleuol. Gan fydd nifer y disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd Hirwaun yn ffactor ym maint y drafnidiaeth sydd ei hangen a bydd hyn yn effeithio ar gostau'r gwasanaeth, dydy'r wybodaeth ariannol yma ddim ar gael. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Er enghraifft, petai angen bws ysgol mawr (hyd at 70 o seddi), yna byddai'r gost ar gyfer hyn yn cyfateb i tua £400.00 y dydd. Fodd bynnag, pe byddai angen cerbyd llai, sydd wedi'i awgrymu yn yr ymatebion a dderbyniwyd drwy gydol y cyfnod ymgynghori a'r cyfnod gwrthwynebu y byddai hynny'n wir, yna byddai costau cludiant o'r cartref i'r ysgol yn lleihau'n sylweddol. |
| | Fydd dim cyfleoedd teithio llesol i'r disgyblion hynny sy'n cerdded i'r ysgol ar hyn o bryd. | Mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd raid i ddisgyblion sy'n byw yn y Rhigos deithio i Ysgol Gynradd Hirwaun naill ai ar fws neu mewn car. Mae'r wybodaeth wedi'i chynnwys yn yr Asesiad ar yr Effaith ar y Gymuned a does neb yn dadlau â'r wybodaeth, ond mae'r modd y bydd hyn yn cael ei liniaru'n rhannol gan gyfleoedd yr ysgol newydd o ganlyniad i gyfleusterau awyr agored Ysgol Gynradd Hirwaun hefyd wedi'i gynnwys yn yr asesiad.<br><br>Noda'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned:<br><br>'Bydd cyfle i'r disgyblion hynny sy'n teithio ar fws neu mewn car yn unol â'r trefniadau newydd brofi'r awyr agored a chael awyr iach o ganlyniad i'r cyfoeth o gyfleusterau yn Ysgol Gynradd Hirwaun. Bydd canopïau allanol, y dosbarth awyr agored, y buarth eang, y cae chwarae, gerddi ac ati i gyd yn gyfle i gefnogi a meithrin iechyd a lles disgyblion a staff'. |
| | Mae Ysgol Gynradd Hirwaun yn bellach i ffwrdd nag Ysgol Gynradd y Rhigos felly bydd ôl-troed carbon y disgyblion hynny'n uwch. | Oherwydd y pellter rhwng Ysgol Gynradd Hirwaun ac Ysgol Gynradd y Rhigos, bydd pob disgybl sy'n byw yn nalgylch Ysgol Gynradd y Rhigos yn gymwys ar gyfer cludiant rhwng yr ysgol a gartref felly fydd dim angen teithiau niferus yn y car i gyrraedd yr ysgol. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Os bydd y cynigion yn cyrraedd y cam nesaf, bydd y Cyngor yn cau adeilad aneffeithlon ac yn symud disgyblion i ysgol effeithlon o ran ynni, felly byddai roi'r cynnig yma ar waith yn cael effaith gadarnhaol ar yr ôl-troed carbon. |
| | Os oes argyfwng, sut bydd fy mhlentyn yn cyrraedd gartref os nad oes car gen i? | Mae plant o gymuned Penderyn eisoes yn teithio i Ysgol Gynradd Hirwaun ar gludiant ysgol, felly mae gan Ysgol Gynradd Hirwaun systemau cadarn yn eu lle i sicrhau bod rhieni/gwarcheidwaid yn effro i unrhyw faterion sy'n codi yn ystod y dydd. Pe bai'r cynnig yn cyrraedd y cam nesaf, byddai'r cyfathrebu yma'n parhau er mwyn cefnogi disgyblion hen a newydd a'u teuluoedd.<br><br>Mae gan Ysgol Gynradd Hirwaun, a phob ysgol arall, ddyletswydd dros ofal a lles pob disgybl. Petai unrhyw broblemau neu argyfyngau'n codi yn ystod y dydd, bydd staff Ysgol Gynradd Hirwaun yn sicrhau eu bod nhw'n cymryd y camau perthnasol er mwyn cefnogi unrhyw deuluoedd sydd ddim â'r modd i fynd i'r ysgol. |
| | Mae'r traffig wrth Ysgol Gynradd Hirwaun eisoes yn brysur. | Mae gan Ysgol Gynradd Hirwaun faes parcio i staff ac ymwelwyr, yn ogystal â chyfleuster i fysiau ollwng plant wrth yr ysgol. Yn rhan o ofynion cynllunio'r prosiect, cafodd man gollwng/maes parcio oddi ar y safle ei adeiladu. Mae'r maes parcio ychwanegol yma wedi lleihau'r tagfeydd y tu allan i Ysgol Gynradd Hirwaun ar ddechrau a diwedd y dydd yn sylweddol. Does dim maes parcio i staff na maes parcio cymunedol ar safle Ysgol Gynradd y Rhigos.<br><br>Yn ogystal, mae gwaith ar ail gam y fenter Llwybrau Diogel yn y Gymuned wedi'i ddylunio, sy'n cynnwys gosod dwy groesfan Sebra newydd yn y pentref, i annog mwy o ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd Hirwaun i gerdded i'r ysgol |

| | | |
|---|---|---|
| | | yn ddiogel, gan leihau nifer y teithiau mewn ceir. Dylai Llywodraeth Cymru benderfynu'n fuan ar y cais am gyllid i gyflawni'r gwaith hwn.<br><br>Gan fod pob disgybl sy'n byw yn dalgylch Ysgol Gynradd y Rhigos yn gymwys ar gyfer cludiant ysgol, does dim disgwyl i'r cynllun yma effeithio'n fawr ar draffig. |
| | Dydw i ddim yn fodlon i fy mhlentyn deithio ar fws ysgol heb oedolyn. | Mae Uned Trafnidiaeth Integredig y Cyngor yn cludo miloedd o blant rhwng 3 ac 19 oed i ysgolion ledled Rhondda Cynon Taf yn llwyddiannus. Rydyn ni'n deall y gall hyn beri pryder i rieni wrth i'w plant deithio ar fws ysgol am y tro cyntaf, neu deithio i'r ysgol am y tro cyntaf. Fodd bynnag, mae meini prawf llym yn eu lle ac mae'n rhaid i ddarparwyr cludiant lynu ato er mwyn sicrhau diogelwch disgyblion. Diogelwch disgyblion yw'r peth pwysicaf i ni. |
| | Mae amlder trafnidiaeth gyhoeddus o'r Rhigos i Hirwaun yn gyfyngedig a'r gost yn atal pobl rhag ei defnyddio'n gyson. | Yn anffodus, dydy cost a gweithredu trafnidiaeth gyhoeddus yn yr ardal ddim yn rhan o gylch gwaith y Cyngor.<br><br>Bydd cyfle i bob disgybl sy'n byw yn y Rhigos fanteisio ar gludiant rhwng yr ysgol a gartref, felly dydyn ni ddim yn disgwyl y bydd raid gwneud nifer o deithiau ar drafnidiaeth gyhoeddus. |
| | Does dim safle bws / cysgodfan y tu allan i Ysgol Gynradd y Rhigos felly ble byddai plant a rhieni yn aros mewn tywydd garw? | Pe bai penderfyniad yn cael ei wneud i weithredu'r cynnig, yna byddai mannau codi a gollwng addas yn cael eu nodi gan Uned Trafnidiaeth Integredig CBSRhCT a'r darparwyr trafnidiaeth.<br><br>Mae mannau codi a gollwng eisoes yn cael eu defnyddio ar gyfer cludiant ysgol yn y Rhigos gan ddefnyddio'r arosfannau bysiau presennol felly mae'n ymddangos yn rhesymegol y byddai'r rhain yn parhau i fod yn lleoliad ar gyfer unrhyw gludiant sydd ei angen i Ysgol Gynradd Hirwaun. |
| | Os bydd y nifer o ddisgyblion sy'n | Na fydd. Yn unol â'r meini prawf pellter yn Mesur Teithio gan |

| | | |
|---|---|---|
| | mynychu Ysgol Hirwaun yn is na'r disgwyl, fydd y cludiant yn cael ei ganslo? | Ddysgwyr Llywodraeth Cymru, bydd y ddarpariaeth cludiant yma'n parhau waeth y niferoedd o ddisgyblion sy'n manteisio arni. |
| **Effaith ar drefniadau** | pontio disgyblion | Pe bai'r cynnig yn cyrraedd y cam nesaf, byddai cymorth wedi'i dargedu ar gael i ddisgyblion o Ysgol Gynradd Hirwaun ac Ysgol Gynradd y Rhigos. Mae pontio cadarnhaol ac ystyrlon yn rhan allweddol o sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefi yn eu hysgol newydd heb darfu ar eu lles a'u haddysg. Caiff hyn ei gefnogi trwy ddarparu cymorth academaidd a bugeiliol effeithiol a chyfleoedd strwythuredig er mwyn i ddisgyblion ymgyfarwyddo ag amgylchedd yr ysgol newydd a'r staff.<br><br>Bydd yr Awdurdod Lleol yn darparu cyngor a chefnogaeth ar gyfer pob ysgol i sicrhau bod y broses bontio mor ddidrafferth a dibryder ag sy'n bosibl. |
| | Dydy lles disgyblion ddim wedi cael ystyriaeth. | Mae lles pob disgybl yn bwysig iawn i ni. Bydd y trefniadau pontio sy'n cael eu darparu, fel sydd wedi'u nodi uchod, yn sicrhau bod digon o gyfleoedd i helpu disgyblion i lywio'r newidiadau ac ymgartrefi yn yr ysgol newydd mor gyflym â phosibl.<br><br>Mae rhagor o wybodaeth am hyn wedi'i chynnwys yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Mae'r Cyngor yn ystyried buddion y cynnig i blant a phobl ifainc yn unol â'r saith prif amcan sydd wedi'u nodi yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plant. |
| | Bydd plant Ysgol y Rhigos yn teimlo eu bod nhw ar gyrion yr ysgol wrth fynychu ysgol sydd y tu hwnt i'w cymuned. | Mae Ysgol Gynradd Hirwaun eisoes yn croesawu plant o gymunedau eraill a chafodd y dalgylch ei ymestyn i gynnwys disgyblion Penderyn yn 2021, ac mae nifer o ddisgyblion yn yr ysgol sy'n byw y tu hwnt i'r dalgylch. Cafodd ddisgyblion Penderyn eu croesawu i deulu Ysgol Gynradd Hirwaun ac maen nhw wedi ymgartrefi yn eu hysgol newydd. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Dyma gadarnhau nad yw disgyblion newydd yn cael eu trin yn wahanol ac rydyn ni'n sicr y bydd unrhyw ddisgybl o Ysgol y Rhigos sy'n pontio i Ysgol Gynradd Hirwaun yn cael eu croesawu. |
| **Effaith ar staff** | Pa gymorth sydd ar gael i staff? | Mae gan y Cyngor bolisïau a gweithdrefnau Adnoddau Dynol cadarn a fydd yn rhoi sicrwydd i staff a chyflogwyr ynglŷn â rheoli newid sefydliadol.<br><br>Mae swyddogion AD eisoes wedi gweld pob aelod o staff Ysgol Gynradd y Rhigos ac mae'r aelodau i gyd o staff yn effro i'r prosesu sydd ar ddod a'r holl gymorth sydd ar gael. |
| **Effaith ar Rieni** | Beth am oblygiadau cost gwisgoedd newydd ac ati? | Mae Cyngor RhCT yn cydnabod, pe bai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo, y byddai goblygiadau o ran cost ar gyfer gwisgoedd newydd. Lle bo angen, bydd rhieni/cynhalwyr yn cael eu cyfeirio at y Grant Hanfodion Ysgol sy’n rhoi cymorth i deuluoedd ar incwm bach i brynu gwisg ysgol.<br><br>Yn Ysgol Gynradd Hirwaun mae gwasanaeth cyfnewid gwisg ysgol ar gael, lle gall y rhai sydd ei angen gael gafael ar wisg o ansawdd da, sydd wedi'i defnyddio. |
| **Cyllid/Rheolaeth Ariannol Effeithiol** | Ymarfer arbed arian gan RCT yw hwn | Fel y dywedwyd droeon, mae'r rhesymau dros y cynnig yn amlochrog ac fe'u heglurir yn y Ddogfen Ymgynghori. |
| | Does dim dadansoddiad manwl o'r ffigurau sydd wedi'u cynnwys yn y ddogfen ymgynghori felly does dim modd herio eu cywirdeb.<br><br>Mae'r ffigurau'n seiliedig ar ragdybiaethau. | Mae'r ffigurau sydd wedi'u cynnwys yn y Ddogfen Ymgynghori yn seiliedig ar niferoedd y disgyblion a'r wybodaeth oedd ar gael yn Ysgol Gynradd y Rhigos ac Ysgol Gynradd Hirwaun ar yr adeg y lluniwyd y Ddogfen Ymgynghori.<br><br>Fel y dywedwyd yn flaenorol, mae'r Ddogfen Ymgynghori yn nodi cynnig CBSRhCT ar gyfer newid, ac felly mae'n rhaid ei hysgrifennu o safbwynt y cynnig sy'n cael ei weithredu er mwyn gallu nodi effaith y cynnig yn glir ar gyfer craffu. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Yn hyn o beth, mae'n rhaid ysgrifennu elfennau o'r Ddogfen Ymgynghori gyda'r rhagdybiaeth y bydd y cynnig yn cael ei wireddu er mwyn gallu cyfrifo goblygiadau ariannol gweithredu'r cynnig. |
| **Cynigion eraill:** | Dydyn ni ddim o'r farn bod yr opsiynau sydd wedi'u cynnwys yn y ddogfen ymgynghori *wedi'u hystyried 'yn ymwybodol'*. | Yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion LlC 2018 (011/2018) ystyriwyd nifer o opsiynau, yn ogystal â manteision disgwyliedig y cynnig a’r anfanteision o gymharu â’r status quo.<br><br>Mae rhai o fanteision ac anfanteision y Ddogfen Ymgynghori wedi cael eu hailadrodd, a nodwyd fel beirniadaeth mewn rhai ymatebion, ond dyw hynny ddim yn eu gwneud yn amherthnasol nac yn llai dilys. |
| | Pam nad oes cyllid ar gael ar gyfer ysgol newydd yn y Rhigos? | Sicrhawyd y cyllid a ddefnyddiwyd ar gyfer Ysgol Gynradd Hirwaun drwy Raglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu Llywodraeth Cymru, (a elwid gynt yn Rhaglen Ysgolion a Cholegau'r 21ain Ganrif). Mae paramedrau ariannu a godir gan LlC y mae angen eu bodloni er mwyn sicrhau cyllid drwy Raglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu LlC, yn ogystal â gallu dangos yn gadarn y bydd y prosiect yn darparu gwerth am arian. Mae hon yn broses gystadleuol ar draws Cymru gyfan.<br><br>Pan sicrhawyd cyllid ar gyfer Ysgol Gynradd Hirwaun, cafodd ei graddio fel un o'r adeiladau sydd yn y cyflwr gwaethaf ym mhortffolio adeiladau CBSRhCT. Cyflawnodd y prosiect amcanion buddsoddi LlC, cafwyd tystiolaeth lwyddiannus o'r angen am fuddsoddiad, a sicrhawyd cymeradwyaeth ariannu. Cyflawnwyd y prosiect heb wario'r holl gyllideb.<br><br>Mae gan CBSRhCT rwymedigaeth i fuddsoddi yn ei holl 115 o ysgolion ar |

| | | |
|---|---|---|
| | | draws 116 o safleoedd, a'u cynnal, ac felly mae prosiectau i'w cynnwys yn Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu newydd LlC yn cael eu blaenoriaethu mewn perthynas â meini prawf amrywiol gan gynnwys dangos angen, hyfywedd a gwerth am arian.<br><br>Dyw ariannu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Gynradd y Rhigos ddim yn flaenoriaeth i'r Cyngor pan fo angen mwy o fuddsoddiad ar safleoedd ysgolion eraill yn RhCT. Yn ogystal, o ystyried y gostyngiad mewn niferoedd yn y rhagamcanion disgyblion yn Ysgol Gynradd y Rhigos, byddai dangos gwerth am arian fesul disgybl yn heriol iawn, os nad yn amhosibl. |
| **Cyfreithlondeb y broses ymgynghori** | Roedd y cyfnod ymgynghori yn rhy fyr. | Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion LlC 2018 (011/2018) yn nodi paramedrau'r ymgynghoriad. Mae'r cod yn nodi bod rhaid i'r bobl sy'n rhan o'r ymgynghoriad gael o leiaf 42 diwrnod i ymateb i'r ddogfen. Yn yr ymgynghoriad yma, cafwyd 47 diwrnod, sy'n mynd y tu hwnt i'r gofyniad statudol sydd arnon ni. |
| | Mae'r wybodaeth sydd wedi'i chyflwyno yn y dogfennau'n dangos tuedd o blaid Ysgol Gynradd Hirwaun. | Diben dogfen yr ymgynghoriad yw cyflwyno cynnig, ac mae'r ffaith mai cynnig yn unig oedd dan sylw ar y pryd . I gadarnhau, mae'r holl wybodaeth sydd wedi'i chyflwyno wedi'i gwneud yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion LlC 2018 (011/2018).<br><br>Mae rhai ymatebion yn mynd ati i gwestiynu'r dewis o luniau yn y ddogfen. Er eglurder, mae'r un data wedi'u cynnwys ar gyfer y ddwy ysgol yn adran 'Ble rydyn ni nawr' y ddogfen, ac mae lluniau o wedd allanol y ddwy ysgol wedi'u cynnwys. Cafodd rhagor o wybodaeth am Ysgol Gynradd Hirwaun a lluniau ohoni eu cynnwys yn y ddogfen gan eu bod nhw'n nodi'r buddion canfyddiedig o drosglwyddo |

| | | |
|---|---|---|
| | | disgyblion o Ysgol y Rhigos i Ysgol Gynradd Hirwaun. Does dim bwriad o ddangos tuedd, dim ond arddangos y cynllun mewn ffordd resymegol a chyson.<br><br>Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf yn gwrthbrofi'r sylw yma. |
| | Mae anghysondebau yn y data a gyflwynir yn y Ddogfen Ymgynghori ac mae wedi dyddio. | Mae'r data sy'n rhan o'r Ddogfen Ymgynghori yn cydymffurfio â Chod Trefniadaeth Ysgolion LlC 2018 (011/2018).<br><br>Y data sydd yn y ddogfen oedd y data mwyaf diweddar ar adeg llunio'r ddogfen. Mae'r rhai sydd wedi'u cynnwys yn unol â'r wybodaeth a ragnodir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion LlC 2018 (011/2018). O ran niferoedd y disgyblion sydd yn yr adroddiad, mae gwahaniaeth rhwng disgyblion oed statudol a disgyblion sydd ddim o oed statudol.<br><br>Daw'r wybodaeth gan Estyn sydd wedi'i chynnwys yn y Ddogfen Ymgynghori o'r arolygiadau diweddaraf a gynhaliwyd yn y Rhigos (Ysgol Gynradd ac Ysgol Gynradd Hirwaun yn y drefn honno yn 2018 a 2019. Mae hyn yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion LlC 2018 (011/2018) lle mae'n nodi bod yn rhaid i Ddogfen Ymgynghori gynnwys:<br><br>*'Gwybodaeth o adroddiadau diweddaraf Estyn ar gyfer pob ysgol.'*<br><br>Daw'r wybodaeth arolwg cyflwr eiddo sydd yn y Ddogfen Ymgynghori o'r arolwg cyflwr eiddo diweddaraf a gynhaliwyd yn 2019. Mae hyn yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion LlC 2018 (011/2018) lle mae'n nodi:<br><br>*'Gwybodaeth am ansawdd adeiladau ac ystafelloedd ym mhob un o'r ysgolion presennol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arnynt, gan* |

| | | |
|---|---|---|
| | | *gynnwys cyfeiriad at arolwg diweddaraf Cyngor RhCT.* |
| | Mae'r wybodaeth a gyflwynir yn y Ddogfen Ymgynghori Plant a Phobl Ifanc yn rhagfarnllyd o blaid Ysgol Gynradd Hirwaun. | Mae'r Cyngor wedi cydnabod bod llais plant a phobl ifainc yn ymwneud â'u cynnwys nhw'n gyfranogwyr gweithredol o'r broses datblygu, cyflawni, rheoli a gwella eu profiad addysgol.<br><br>Mae gan blant a phobl ifainc hawl i fynegi eu barn ar bob mater sy'n cael effaith arnyn nhw ac i'w barn gael ei chlywed a'i hystyried yn unol â'u hoedran a'u haeddfedrwydd. Fel y cyfryw, sicrhaodd Carfan Ysgolion yr 21 ain Ganrif fod trefniadau addas yn cael eu gwneud i gynnwys plant a phobl ifanc fel cyfranogwyr gweithredol trwy gydol y broses ymgynghori hon.<br><br>Ymgynghorodd CBSRhCT â'r plant a'r bobl ifanc sy'n mynychu Ysgol Gynradd y Rhigos ac Ysgol Gynradd Hirwaun. Cafodd hyn ei wneud trwy baratoi fersiwn i blant a phobl ifainc o'r Ddogfen Ymgynghori a'r Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad.<br><br>Cynhaliodd Carfan Ysgolion 21ain Ganrif Cyngor RhCT gyfarfodydd gyda Chynghorau Ysgol Gynradd y Rhigos ac Ysgol Gynradd Hirwaun i drafod y cynnig ac arwain y Cynghorau Ysgol trwy'r ddogfen ei hun a thrwy fersiwn i blant a phobl ifanc o'r Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad. Trafodwyd y Ddogfen Ymgynghori fesul tudalen gyda disgyblion Ysgol Gynradd y Rhigos ac Ysgol Gynradd Hirwaun a gwnaed hynny yng nghyd-destun y broses ymgynghori. Eglurwyd yn benodol ar sawl achlysur yn ystod y sesiynau yn Ysgol Gynradd y Rhigos ac Ysgol Gynradd Hirwaun nad oedd unrhyw benderfyniadau wedi’u gwneud ar y cynnig. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Cafodd y sesiynau ymgynghori yma gefnogaeth staff arbenigol mewn ysgolion i gefnogi disgyblion a chynorthwyo gyda'r broses ymgysylltu. Cafodd adborth o'r cyfarfodydd hyn ei goladu a'i grynhoi a'i ymgorffori yn yr Adroddiad Ymgynghori. |
| **Gwrthwynebiad Cyffredinol** | 'Nid wyf yn cytuno â'r cynnig oherwydd y wybodaeth ragfarnllyd, anghyflawn ac anghywir sydd yn y ddogfen ymgynghori a thuedd RhCT drwy gydol y broses.' (cyfieithiad) | Dyma wrthwynebiad cyffredinol nad yw'n cyfeirio'n benodol at ba elfennau yn y Ddogfen Ymgynghori y mae'n cyfeirio atyn nhw.<br><br>Fodd bynnag, er eglurder, roedd yr wybodaeth yn y Ddogfen Ymgynghori yn ffeithiol a dyma'r wybodaeth ddiweddaraf a oedd ar gael ar yr adeg y dechreuodd yr ymgynghoriad.<br><br>Mae CBSRhCT yn gwrthbrofi'r honiad bod y wybodaeth yn unochrog. |

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972**

**FEL SYDD WEDI'I DIWYGIO GAN**

**DDEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) 1985**

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF**

**CABINET**

**29 EBRILL 2024**

**ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR ADDYSG A GWASANAETHAU CYNHWYSIANT MEWN TRAFODAETH GYDA'R AELOD O'R CABINET AR FATERION ADDYSG, CYFRANOGIAD POBL IFAINC A'R GYMRAEG, (Y CYNGHORYDD R LEWIS)**

**EITEM: CYNNIG I GAU YSGOL GYNRADD RHIGOS A THROSGLWYDDO DISGYBLION I YSGOL GYNRADD HIRWAUN**

**PAPURAU CEFNDIR**

**18 Medi 2023**
**CABINET: YMGYNGHORIAD TREFNIADAETH YSGOLION STATUDOL - CYNNIG I GAU YSGOL GYNRADD Y RHIGOS GYDA DISGYBLION YN TROSGLWYDDO I YSGOL GYNRADD HIRWAUN.**

**14 Rhagfyr 2023**
**PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG A CHYNHWYSIANT: CYN CRAFFU AR ADRODDIAD DRAFFT GAN Y CABINET: 'CYNIGION I GAU YSGOL GYNRADD RHIGOS GYDA DISGYBLION YN TROSGLWYDDO I YSGOL GYNRADD HIRWAUN'.**

**18 Rhagfyr 2023**
**CABINET: CYNNIG I GAU YSGOL GYNRADD RHIGOS A THROSGLWYDDO DISGYBLION I YSGOL GYNRADD HIRWAUN.**

**11 Ionawr 2024**
**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU: GALW-I-MEWN: CYNNIG I GAU YSGOL GYNRADD RHIGOS A THROSGLWYDDO DISGYBLION I YSGOL GYNRADD HIRWAUN.**

**Gwybodaeth arall:**

**Pwyllgor Craffu Perthnasol:**
Pwyllgor Craffu Addysg a Chynhwysiant.
Y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu.

**Swyddog Cyswllt:**
Lisa Howell, Rheolwr Busnes a Threfniadaeth Ysgolion - Ysgolion yr 21ain Ganrif